*Datganiad i'r Cyfryngau*
*5 Rhagfyr 2023*
*I'w ryddhau ar unwaith*

## Sinemâu Cymru yn Dathlu Pen-blwydd Canolfan Ffilm Cymru yn 10

Gyda dros £3 miliwn o arian wedi'i greu ar gyfer sinemâu, gwyliau a sgriniau cymunedol yng Nghymru ers 2013, mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn edrych yn ôl dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

Mae'r Ganolfan wedi cydweithio â rhwydwaith enfawr o dros 300 o arddangoswyr yng Nghymru gan gynnig cyngor, hyfforddiant a chyllid. Fel rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI (FAN) sy'n weithredol ledled y DU, mae'r Ganolfan wedi dod â bron i 6000 o'r ffilmiau annibynnol o'r DU a ffilmiau rhyngwladol gorau i gymunedau ledled Cymru ers lansio'r prosiect. Mae'r cyfan yn bosib diolch i gyllid Loteri Cenedlaethol y BFI.

Mae uchafbwyntiau yn cynnwys gwaith ar raddfa fawr megis canmlwyddiant 'Roald Dahl ar Ffilm' a dathliad o waith animeiddio'r DU: 'Anim18', fe lwyddodd y ddau gyrraedd 150 sgrin sinema ledled y DU. Mae Rhwydwaith Gŵyl Ieuenctid Cymru ac Off Y Grid, a sefydlodd gysylltiadau rhwng clystyrau o sinemâu a gwyliau er lles cynulleidfaoedd hyperleol hefyd yn uchafbwyntiau. Mae'r Ganolfan hefyd wedi sefydlu cynlluniau allweddol megis Gwnaethpwyd yng Nghymru, sy'n mynd i'r afael â'r bwlch yn y gadwyn ffilm Gymreig. Mae'r cynllun yn gweithio i hyrwyddo ffilmiau sydd â chysylltiadau Cymreig, a chynllun Sinema Gynhwysol a ddyluniwyd i gefnogi cynrychiolaeth a hygyrchedd deg o fewn lleoliadau sinema yn y DU.

Wrth i ni edrych yn ôl at lansiad y Ganolfan, rydyn ni'n cofio sinemâu Cymru'n mynd yn dywyll fel rhan o dymor y DU gyfan – 'BFI Gothic' – yn 2013. Yn Aberystwyth, aeth cynulleidfaoedd ar daith gyda'r 'Abertoir Horror Express', y cyntaf o nifer o ddigwyddiadau oddi ar y safle y byddai'r ŵyl ryngwladol o fri yn ei chynnal.

**Esbonia Gareth Bailey a Nia Edwards Behi, cyfarwyddwyr Abertoir pam fod cefnogaeth y Ganolfan wedi bod mor bwysig iddyn nhw:**

*"Rydyn ni'n hynod falch ein bod wedi cydweithio â Chanolfan Ffilm Cymru dros yr holl amser yma – nifer faith o flynyddoedd! Mae'r gefnogaeth wedi bod yn anhygoel. Mae rhai o'r ffilmiau gorau i ni eu dangos – megis 'Gwledd' – wedi dod o anogaeth a chysylltiadau Canolfan Ffilm Cymru. Mae'r ffaith i hyn oll gychwyn gyda BFI Gothic ddeng mlynedd yn ôl yn briodol iawn. Ar y pryd fe alluogodd gyllid Canolfan Ffilm Cymru ni i gymryd risg a pheilota ein digwyddiad cyntaf oddi ar y safle – sef yr 'Abertoir Horror Express.' Rydyn ni wedi bod yn arbrofi gyda dangosiadau safle penodol byth ers hynny! Rydyn ni hefyd yn credu y dylai Abertoir fod yn hygyrch ac mae eu cefnogaeth wedi'n galluogi ni i gynnwys capsiynau ar gyfer elfennau rhithiol yr ŵyl. Rydyn ni mor falch bod Canolfan Ffilm Cymru yn bodoli i gefnogi diwylliant ffilm yng Nghymru."*

Megis cychwyn oedd hyn. Mae'r Ganolfan bellach wedi cyllido neu / ac wedi datblygu 347 o brosiectau'n uniongyrchol ledled Cymru, o 'Fframio'n Gorffennol' - e-lyfr gyfoethog yn

seiliedig ar hanes Cymru o Archif Sgrin a Sain yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, i gefnogi chwe chanolfan gyda'u hymdrechion i fewnosod cynlluniau sinema dan arweiniad pobl F/fyddar gyda Chyngor Cymru i Bobl Fyddar.

**Esbonia Hana Lewis, Rheolwr Strategol Canolfan Ffilm Cymru:**

*"Gyda chynifer o heriau yn wynebu sinemâu ar hyn o bryd, mae'n bwysig ein bod ni'n adlewyrchu ar y llwyddiannau niferus o'r 10 mlynedd ddiwethaf. Rydw i'n ddiolchgar am y cysylltiadau rydyn ni wedi'u creu gyda phartneriaid fel Cellb, Pontio a'r Magic Lantern, sefydliadau yr ydym wedi cydweithio â nhw ers y cychwyn cyntaf. Yn ogystal â phartneriaethau strategol gyda Wicked a'r Archif Sgrin a Sain – partneriaethau ble y cymeron ni risgiau gyda'n gilydd er mwyn creu rhywbeth newydd. Pa un ai a ydym yn hyrwyddo newidiadau polisi sy'n effeithio arddangos yng Nghymru, neu'n helpu rhaglenwyr ifanc, pwrpas ein gwaith yn ei hanfod yw adeiladu prosiect sy'n cefnogi sinemâu a gwyliau i wneud yr hyn y maent yn ei wneud orau – adlonni a chysylltu cynulleidfaoedd. Mae llwyddiant y Ganolfan o ddiolch iddyn nhw, ac rydyn ni'n mawr obeithio parhau i gynnig ein cefnogaeth am flynyddoedd i ddod."*

Mae gweithgareddau'r Ganolfan yn cwmpasu datblygu sgiliau hefyd. Gyda'r nod o gefnogi sector arddangos llewyrchus a hyderus, mae'r Ganolfan wedi dyfarnu 193 bwrsari hyfforddi i aelodau fynychu cyrsiau neu gyfarfodydd pwysig y tu allan i'w hardal awdurdod lleol. Maent hefyd wedi creu 26 cwrs a 23 adnodd ar-lein mewnol ac wedi cynnig cannoedd o gyfleoedd i arddangoswyr rwydweithio a chael mynediad i gyngor un i un gan dîm y Ganolfan.

**Esbonia Reg Noyes, Rheolwr y Rhaglen, Creu Taliesin, sut mae Canolfan Ffilm Cymru yn cefnogi sefydliadau i ddatblygu eu sgiliau a'u partneriaethau:**

*"Mae Canolfan Ffilm Cymru yn brosiect rhagweithiol a chefnogol iawn sydd wedi llwyddo i ddod â holl arddangoswyr Cymru ynghyd i greu rhwydwaith cyfarwydd ac agos. Drwy gyfarfodydd ar-lein cyfnodol a Diwrnodau Dangos Cymreig, mae arddangoswyr o Gymru wedi creu cysylltiadau ac wedi rhannu profiad/gwybodaeth, gan ein gwneud ni yn grŵp proffesiynol agos. Mae eu cylchlythyrau a'u Hystafell Rhagddangos ar eu gwefan yn adnodd ardderchog i raglenwyr, ac mae eu tymhorau sydd wedi'u curadu yn cynnig amrywiaeth yr ydym yn ei groesawu. Mae Canolfan Ffilm Cymru yn gaffaeliad arbennig i sinemâu a rhaglenwyr yng Nghymru."*

Gall bartneriaid ddysgu rhagor am waith y Ganolfan yn ei Huchafbwyntiau 10 Mlynedd, sy'n cyflwyno detholiad o brosiectau, y bydd yn cael eu rhannu ar eu cyfryngau cymdeithasol dros yr wythnosau nesaf. Gallwch hefyd wrando ar aelodau'r Ganolfan yn trafod yr hyn y mae'r prosiect wedi'i olygu iddyn nhw drwy gyfres o fideos byrion. Mae'r Ganolfan hefyd wedi ariannu 17 prosiect newydd ar gyfer 2023 sy'n golygu bod llawer o bethau cyffrous ar y gweill i gynulleidfaoedd Cymru.

**Ychwanegodd Ben Luxford, Cyfarwyddwr UK Wide Audiences:**

*"Mae'r BFI yn falch o fod wedi cefnogi Canolfan Ffilm Cymru dros y 10 mlynedd ddiwethaf er mwyn cryfhau a datblygu'r sector sgrin er fudd cynulleidfaoedd. Mae'n rhan o fuddsoddiad tymor hir y Loteri Genedlaethol fel rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI – rhwydwaith y DU gyfan – sy'n dod â ni ynghyd â phartneriaid ardderchog y mae eu gwaith yn buddio'r genedl, gyda gweithgareddau'n digwydd yng nghalon cymunedau. Llongyfarchiadau i Hana a'r tîm am gynnig cefnogaeth barhaus mor bwysig."*

Cefnogir y prosiectau gan Ganolfan Ffilm Cymru, sy'n rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI (FAN) gan ddefnyddio arian gan y Loteri Genedlaethol i sicrhau bod y dewis mwyaf o sinema ar gael i bawb ledled y DU. Gweinyddir arian yng Nghymru gan Ganolfan Ffilm Cymru drwy Chapter fel Sefydliad Arweiniol y Ganolfan Ffilm.

Mae dros £30m yn cael ei godi bob wythnos ar gyfer achosion da ledled y DU gan y Loteri Genedlaethol.

**- DIWEDD -**

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:**

Sarah Chew, Swyddog Marchnata ac Allgymorth, ar 02920 311 057 / sarah@filmhubwales.org
Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu, ar 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org
Hana Lewis, Rheolwraig Strategol, ar 02920 353 740 / hana@filmhubwales.org

**Nodiadau i Olygyddion:**

**Am Ganolfan Ffilm Cymru**

Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn cefnogi cyrff sy'n dangos ffilmiau – o wyliau ffilmiau i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros 300 o arddangoswyr ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru a'r DU. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 345 o brosiectau sinema a chyrraedd dros 560,000 o aelodau cynulleidfa.

Rydym yn rhan o rwydwaith ledled y DU o wyth canolfan a ariennir gan y Loteri Genedlaethol trwy'r Sefydliad Ffilmiau Prydeinig (BFI) sy'n ffurfio'r Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN). Rheolir Canolfan Ffilm Cymru gan Chapter.

Rydym hefyd yn falch o fod wedi arwain ar strategaeth Sinema Gynhwysol DU ar ran BFI FAN 2017-23.
Gwefan, X (Twitter gynt), Facebook, Instagram

**Am Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI**

Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Cenedlaethol, mae FAN BFI yn ganolog i nod y BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilm ar gael i bawb. Wedi'i sefydlu yn 2012 i adeiladu cynulleidfaoedd sinema DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, mae FAN yn gydweithrediad DU gyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth o ganolfannau a reolir gan gyrff a lleoliadau ffilm amlwg wedi'u lleoli'n strategol o amgylch y wlad. Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiad talent gyda Swyddogion Talent Rhwydwaith BFI ym mhob un o'r canolfannau yn Lloegr, gyda chenhadaeth o ddarganfod a chefnogi awduron, cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaoedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI:

- Canolfan Ffilm y Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham yn gweithio mewn partneriaeth gyda Flatpack Birmingham
- Canolfan Ffilm Gogledd Lloegr dan arweiniad Showroom Workstation, Sheffield a HOME Manceinion

- Canolfan Ffilm De Ddwyrain Lloegr dan arweiniad Swyddfa Sinema Annibynnol
- Canolfan Ffilm De Orllewin Lloegr dan arweiniad Watershed ym Mryste
- Canolfan Ffilm yr Alban dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Canolfan Ffilm Gogledd Iwerddon dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Canolfan Ffilm Llundain dan arweiniad Film London

Gwefan

**Am BFI**
Rydym yn elusen diwylliannol, dosbarthydd y Loteri Cenedlaethol a chorff arweiniol y DU ar gyfer ffilm a'r ddelwedd symudol. Ein cenhadaeth ydy:

- Cefnogi creadigrwydd a chwilio am y genhedlaeth nesaf o adroddwyr straeon y DU
- Tyfu a gofalu am Archif Cenedlaethol BFI, archif ffilm a theledu mwyaf y byd
- Cynnig yr amrediad ehangaf o ddiwylliant delwedd symudol DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau – ar-lein ac mewn lleoliadau
- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd
- Gweithio gyda Llywodraeth a diwydiant i sicrhau twf parhaol diwydiannau sgrin y DU

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen cofrestredig a reolir gan Siarter Brenhinol. Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Tim Richards.
Gwefan, Facebook, X (Twitter gynt)

**Am Chapter**
Sefydlwyd Chapter gan artistiaid ym 1971, fel canolfan ryngwladol ar gyfer celfyddydau a diwylliant cyfoes. Mae'n gartref i'r celfyddydau, lle cynhyrchir a chyflwynir gwaith dyfeisgar, apelgar o'r radd flaenaf. Mae eu horiel yn comisiynu ac yn cynhyrchu arddangosfeydd o gelfyddyd gorau'r wlad a'r byd. Mae eu gofodau theatr yn llwyfan i waith arbrofol sy'n procio'r meddwl. Mae eu sinemâu yn cynnig ffilmiau rhyngwladol a heriol ochr yn ochr â nifer o wyliau a digwyddiadau. Mae'r sinemâu yn dod â rhagor o ffilmiau i ragor o bobl mewn rhagor o leoedd drwy Ganolfan Ffilm Cymru.

Ochr yn ochr â'i rhaglen graidd, mae Chapter hefyd yn gartref i 56 o artistiaid a chwmnïau creadigol sy'n gweithio yn eu stiwdios. O animeiddwyr a chwmnïau cynhyrchu ffilmiau sydd wedi ennill gwobrau, i artistiaid, dylunwyr a ffotograffwyr, yn ogystal â chwmni fframio celf, argraffwyr a stiwdios recordio. Mae'r gymuned greadigol wrth galon holl weithgarwch Chapter.

Daw'r rhaglen a'r gymuned ynghyd yn eu Caffi Bar sydd wedi ennill gwobrau. Gyda lle i hyd at 120 o bobl eistedd, mae'r caffi yn lle gwych i gyfarfod ffrindiau, darganfod lle tawel i weithio, neu i fwynhau diod neu damaid o fwyd blasus, ffres wedi'i baratoi â chynhwysion a brynwyd yn lleol, o fwydlen eang.
Gwefan, Facebook, X (Twitter gynt), Instagram